

Fy Nhrysor I

Gan

Philip Jonathan

22.02.04

Mae gan fy nhrysor i 96 sbôc, 2 x 5 gêr a chadwyn 108 cymal sy'n dal i droi'n ddiffwdan ar ôl 22 mlynedd. A 6 troedfedd o diwb 531 cadarn heb yr un hedyn mwstad o rhwd. Ac ymffrost enw anwyl *Claude Bulter* arni. Fe gwrddom yng Ngorffennaf 1982, yn benaf am fod genyf dros £200 o'm *grant* coleg ar ôl - anodd credu yn y byd sydd ohoni, onid ydi? - wedi 'mlwyddyn gyntaf. Fe'i gwelais mewn siop yn Sgiwen, ger Castell Nedd, a rhaid oedd ei chael. Fe'i prynais yn y fan a'r lle, a chofiaf hyd heddiw'r braw o dalu dros can punt amdani. 'Da ni wedi cyd-grwydro fyth ers hynny.

Yn y dyddiau cynar, taith o bentre'r myfyrwyr yn Hendrefoelan i lawr i gefn Neuadd Lewis Jones yn y coleg yn Abertawe - a phob cam yn ôl eto - oedd hyd a lled ein perthynas. Blynyddoedd wedyn, hi oedd fy nghymar cludiant o gartref ger Leiden i'r gwaith ger Delft yn yr Iseldiroedd. Cylchdaith dyddiol o 15 cilomedr drwy heulwen haf a gwynt a glaw y gaeaf - medraf eich sicrhau'n hollol ddiamod mai o'r de orllewin y chwytha'r awel yn y wlad hono gan fynychaf!

Mae ei gweld yr sbarduno llif atgofion am deithiau arbennig, megis un nôs Wener hafaidd yn nyddiau coleg, pan aethom ar siwrnai i'r Mynydd Du. O Odre'r Graig yng Nghwm Tawe i Ystalyfera, drwy Gwmtwrch (Isaf wedyn Uchaf) i Ystradowen, Cwmllynfell, Cefnbrynbrain a Rhosaman i Frynman ac i fyny'r mynydd i gyfeiriad Llangadog. Dringo a dringo â'r ceffylau gwyllt yn frith ar y llethrau. Disgyn heibio Tro'r Gwcw, throad Trap a Gwynfe i Bontaber, â chastell Carreg Cenen yn gefndir. Gŵyro i gyfeiriad Llanddeusant a Thwynllanan a 'mlaen i bentref cysglyd Cwmwsg ger cronfa ddŵr Wysg. Yna i Drecastell ger Pontseni, cyn dilyn yr afon Tawe pob cam o'i tharddle ger Llyn Y Fan i Dafarn Y Gareg, heibio ogofau Dan Yr Ogof i gastell Craig Y Nôs, lle bu'r amharchus Adelina Pati wrthi'n diddanu ei thywysog o olwg y cyhoedd. Adref wedyn drwy Benycae, Ynyswen, Abercrâf ac Ystradgynlais. Y corff yn flinedig - a'r ysbryd wedi bywiocau.

Bellach, hi i mi sy'n cysylltu'r aelwyd a thref Rhuthun ar noson ymarfer côr a siopa bore Sadwrn. A hi sy'n enyn diddordeb y plant acw. Pur anaml yw'r teithiau hirach, ond parhau mae'r uchelgais o gyraedd Cwm Tawe o Ddyffryn Clwyd yn ei chwmi - unwaith i gyhyrau'r mab ddatblygu digon, a chyn or-ddirywiad cyhyrau ei dad!